# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 22 Mai 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa gyllid sydd ar gael ar gyfer ehangu Unedau Cyfeirio Disgyblion mewn dosbarthiadau chwech yng Nghymru? (WAQ54202)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Dim, gan fod unedau cyfeirio disgyblion wedi'u sefydlu'n arbennig i ddarparu addysg addas i blant a phobl ifanc o oedran ysgol gorfodol yn unig.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth diweddaraf ynglŷn â'r cynnydd y mae ei hadran wedi'i wneud tuag at gyflawni ymrwymiadau 'Cymru'n Un' o fewn ei phortffolio? (WAQ54191)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Mae 36 o Ymrwymiadau o'r ddogfen Cymru'n Un yn dod o dan bortffolio'r Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai. Mae fy swyddogion wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ar gyfer pob un o'r ymrwymiadau fel rhan o gyflwyno adroddiadau chwarterol i Lywodraeth y Cynulliad ar y ffordd y mae'n cyflawni agenda Cymru'n Un. Mae'r rhain ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru

(http://wales.gov.uk/about/strategy/publications/1walesdeliveryplan/;jsessionid=G0fTKRxFKb0RJK5vltMrHTkP4NJdgCgyth2vTLRvhLbFhfvy1jrW!1298896870?lang=cy)

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn dangos bod disgwyl i ni weld pob un o'n hymrwymiadau Cymru'n Un yn cael eu gweithredu'n llwyr, a chaiff y rhan fwyaf ohonynt eu cwblhau o fewn yr amserlenni perthnasol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Pa asesiad a wnaethpwyd o effaith y Fframwaith Strategol ar gyfer Hybu Iechyd Rhywiol yng Nghymru? (WAQ54199)

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Pa asesiad a wnaethpwyd o'r cynnydd wrth weithredu'r Fframwaith Strategol ar gyfer Hybu Iechyd Rhywiol yng Nghymru? (WAQ54200)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Lansiwyd y Fframwaith Strategol ar gyfer Hybu Iechyd Rhywiol yng Nghymru yn 2001. Cyhoeddwyd adolygiad o weithredu'r Strategaeth ym mis Tachwedd 2003 (http://wales.gov.uk/dphhp/publication/improvement/sex-health/report/report?skip=1&lang=cy). Yn ddiweddar iawn, mae'r strategaeth hon, ynghyd â'r holl bolisïau presennol ynghylch iechyd rhywiol, wedi'u hadolygu gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen 'Ein Dyfodol Iach' ar Ymddygiad a Risgiau yn Gysylltiedig ag Iechyd. Mae canfyddiadau'r adolygiad hwn wedi llywio'r gwaith o ddatblygu strategaeth iechyd rhywiol ddiwygiedig a gaiff ei lansio ar gyfer ymgynghoriad yn fuan.

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Pa fuddsoddiad y mae'r Gweinidog yn bwriadu ei wneud mewn gwasanaethau iechyd rhywiol a hybu iechyd rhywiol? (WAQ54201)

**Edwina Hart:** Diogelir arian ar gyfer gwasanaethau iechyd rhywiol integredig a hybu iechyd rhywiol o fewn dyraniadau ariannol blynyddol y Bwrdd Iechyd Lleol (BILl). Mae dyraniad y BILl ar gyfer 2008-09 yn £15.033m ar gyfer gwasanaethau iechyd rhywiol a £748K ar gyfer hybu iechyd rhywiol. Mae £81K arall yn cefnogi Rhwydweithiau Iechyd Rhywiol a HIV Cymru Gyfan.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A yw’r Gweinidog wedi gwneud unrhyw ddarpariaeth ariannol ar gyfer y goblygiadau costio a fydd yn deillio o’r safonau adsefydlu canser? (WAQ54209)

**Edwina Hart:** Mae'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Adsefydlu i Oedolion â Chanser yn y broses ymgynghori. Ar ôl eu cyhoeddi, y Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) fydd yn gyfrifol am asesu'r ddarpariaeth gwasanaethau bresennol yn erbyn y Safonau, a rhoi cynlluniau cyflenwi ar waith er mwyn cyflawni cydymffurfiaeth lwyr dros amser. Fel rhan o'r broses hon, bydd BILlau yn asesu goblygiadau ariannol gweithredu'r Safonau.